# Disgrifiad Swydd

RCS
LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

## ARWEINYDD TÎM CYSYLLTU Â GWAITH

**Band:** ...............................**4.1 to 4.8**

**Cyflog:** ............................**£31,003.46 to £35,613.23**

**Cytundeb:** .......................**Parhaol**

**Oriau gwaith:** .................**Llawn amser, 37 awr yr wythnos**

**Lleoliad gweithio:** ..........**Wrecsam neu Sir y Fflint**

**Yn atebol i:**.......................**Rheolwr Gwasanaeth Cysylltu â Gwaith**

**Yn gyfrifol am:** ..............**Arbenigwr Cyflogaeth**

### Cefndir

Mae Cysylltu â Gwaith yn rhaglen newydd gan lywodraeth y DU sydd â'r nod o helpu pobl i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, yn enwedig pobl sydd ag anableddau, cyflyrau iechyd ac anghenion cymhleth.
Mae'r rhaglen yn seiliedig ar fodel cyflogaeth â chymorth, gan ddefnyddio dull 'lleoli, hyfforddi a chynnal', y mae tystiolaeth ei fod y ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi pobl i gael gwaith. Bydd ein tîm yn gweithio gydag unigolion i'w cysylltu â swyddi a chyflogwyr sy'n cyd-fynd â'u dyheadau a'u hanghenion cefnogaeth.

### Diben y Swydd

Bydd yr Arweinydd Tîm ar gyfer Cyflogaeth â Chymorth yn arwain a datblygu tîm o hyd at 10 o Arbenigwyr Cyflogaeth i sicrhau bod gwasanaeth cyflogaeth â chymorth o ansawdd da yn cael ei ddarparu ac yn cadw at egwyddorion Lleoliad a Chymorth i Unigolion (IPS) a/neu egwyddorion Fframwaith Ansawdd Cyflogaeth â Chymorth (SEQF).
Bydd deiliad y swydd yn goruchwylio, hyfforddi, mentora a rheoli perfformiad y tîm, wrth hyrwyddo arferion gorau a sicrhau canlyniadau cyflogaeth cadarnhaol i gyfranogwyr. Bydd yn cydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol i wreiddio cymorth cyflogaeth i wasanaethau llesiant ac adfer ehangach.
Efallai y bydd yr Arweinydd Tîm hefyd yn ysgwyddo llwyth achos bach pan fo angen.

## Cyfrifoldebau

**Arwain a Darparu Gwasanaeth**

- Arwain tîm o Arbenigwyr Cyflogaeth i ddarparu gwasanaeth cyflogaeth â chymorth o ansawdd da yn unol ag egwyddorion IPS ac SEQF.
- Cefnogi'r tîm i gyflawni targedau perfformiad y cytunwyd arnynt, safonau ansawdd a chywirdeb a chanlyniadau cadarnhaol i gyfranogwyr.
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Gwasanaeth Cysylltu â Gwaith i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth a gwelliannau parhaus.
- Cynnal dull sy'n canolbwyntio ar gyfranogwyr sy'n cefnogi unigolion i sicrhau a chynnal cyflogaeth â thâl.

**Arwain Tîm**

- Hyfforddi, goruchwylio, arwain a chefnogi Arbenigwyr Cyflogaeth yn effeithiol.
- Monitro perfformiad drwy gyfarfodydd un-i-un rheolaidd, arsylwadau a chymorth yn y lleoliad gwaith.
- Nodi anghenion datblygu staff a chydlynu hyfforddiant priodol a chyfleoedd i ddysgu.
- Meithrin diwylliant tîm cadarnhaol, perfformiad uchel a chydweithredol.

**Gweithio gyda Chyfranogwyr**

- Gweithio gyda llwyth achos bach o Gyfranogwyr, cyd-greu Cynlluniau Galwedigaethol wedi'u teilwra i unigolion a llunio cynlluniau gweithredu i weithio tuag at nodau cyflogaeth a mynd i'r afael â rhwystrau.
- Gweithio'n rhagweithiol gyda chyflogwyr i nodi cyfleoedd gwaith cystadleuol â thâl sy'n cyd-fynd ag anghenion cymorth, uchelgeisiau a hoff ddewisiadau Cyfranogwyr
- Gweithio gydag ystod o asiantaethau i nodi ffynonellau o gymorth ategol i helpu Cyfranogwyr i oresgyn rhwystrau i waith

RCS
LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

## Cyfrifoldebau

### Gweithio mewn Partneriaeth

- Datblygu a chynnal cysylltiadau gwaith cydweithredol gyda gweithwyr proffesiynol iechyd, partneriaid atgyfeirio, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill.
- Hyrwyddo'r syniad o integreiddio cymorth cyflogaeth mewn gwasanaethau iechyd, llesiant a chymunedol ehangach.
- Gweithio gyda'r Cydlynydd Llwybrau Cyflogaeth a chydweithwyr eraill i sicrhau llwybrau atgyfeirio effeithiol ac ymgysylltiad cyfranogwyr.
- Cefnogi gweithgareddau marchnata a hyrwyddol i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth

### Ymgysylltu â Chyflogwyr

• Cefnogi Arbenigwyr Cyflogaeth i ddatblygu a chynnal cysylltiadau â chyflogwyr ledled y rhanbarth.
• Sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr yn creu cyfleoedd sy'n cyd-fynd â sgiliau, uchelgeisiau ac anghenion cymorth cyfranogwyr.
• Rhoi cymorth ac arweiniad i gyflogwyr i wella mynediad at gyfleoedd drwy recriwtio cynhwysol, cerfio swyddi, cyfweliadau gwaith, addasiadau i weithleoedd ac ati

### Perfformiad, Ansawdd a Chydymffurfedd

• Goruchwylio'r broses o gofnodi gwybodaeth cyfranogwyr a gwasanaeth yn gywir.
• Sicrhau y caiff systemau data eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i fonitro perfformiad ac adrodd amdano.
• Cynhyrchu adroddiadau monitro a manylion gwasanaeth yn ôl yr angen.
• Cefnogi'r tîm i weithio o fewn gofynion diogelu, gofynion GDPR a gofynion polisi sefydliadol.

## Cyfrifoldebau

- Cyfrifoldebau Proffesiynol
- Cynnal ffiniau proffesiynol a chyfrinachedd drwy'r amser.
- Cyfrannu at hyrwyddo a datblygu'r gwasanaeth, gan gynnwys nodi straeon llwyddiant posibl a chanlyniadau effaith.
- Chwarae rhan weithredol mewn datblygiad proffesiynol parhaus.
- Gwneud unrhyw ddyletswyddau eraill sydd gymesur â'r swydd.

RCS
LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

## Manyleb person

### Hanfodol

- Safon uchel o addysg.
- O leiaf 2 flynedd o brofiad o gefnogi pobl ag anghenion iechyd meddwl, anableddau neu rwystrau eraill i gyflogaeth.
- Profiad o feithrin partneriaethau effeithiol gyda rhanddeiliaid a sefydliadau allanol.
- Profiad o oruchwylio, hyfforddi neu reoli staff.
- Gwybodaeth am arferion ac egwyddorion cyflogaeth â chymorth.
- Sgiliau TG da, gan gynnwys cymwysiadau Microsoft Office. Sgiliau cadarn o ran arwain a rheoli pobl.
- Sgiliau rhagorol o ran cyfathrebu, hyfforddi, dylanwadu a meithrin cysylltiadau.
- Y gallu i gydweithio a meithrin partneriaethau effeithiol.
- Sgiliau trefnu cadarn a'r gallu i reoli blaenoriaethau sy'n cystadlu.
- Y gallu i weithio'n annibynnol a defnyddio blaengarwch.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Empathig, cyfeillgar a phroffesiynol.
- Brwdfrydig dros helpu pobl i gyflawni eu nodau cyflogaeth.
- Cadarnhaol, gwydn ac yn canolbwyntio ar ddatrysiadau.
- Dibynadwy, trefnus ac atebol.
- Wedi ymrwymo i ddysgu a datblygu parhaus.

### Dymunol

- Profiad o ddylunio a chyflwyno cynlluniau cymorth sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Profiad o ymgysylltu â chyflogwyr a chreu cyfleoedd am gyflogaeth.
- Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth anabledd, iechyd meddwl a seiliedig ar gyflogaeth.
- Gwybodaeth am egwyddorion IPS a gofynion cywirdeb.
- Gwybodaeth am fuddion lles a chyfraith cyflogaeth.
- Y gallu i deithio ar draws y rhanbarth.
- Yr hyblygrwydd i weithio y tu hwnt i oriau swyddfa arferol yn ôl yr angen.
- Y gallu i siarad Cymraeg ac ysgrifennu yn y Gymraeg.
- Profiad bywyd o anabledd, heriau iechyd meddwl neu rwystrau i gyflogaeth.

RCS
LLES AR GYFER GWEITHIO
WELLBEING FOR WORK

## Gwiriadau cyn cyflogaeth

- Hawl i fyw a gweithio yn y DU
- datgeliad manylach DBS
- Dau eirdaYnEr

## Dyddiad Cau

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 21 Medi 2026 (canol dydd)

## Cyfweliadau

Mae'r cyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer 24/25 Medi 2026

**Mae RCS wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol lle gall pawb ffynnu. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir. Dywedwch wrthym os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch ar unrhyw gam o'r broses recriwtio fel y gallwn eich cefnogi i berfformio ar eich gorau.**